**Edwina Hart MBE OStJ AC / AM**
**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**
**Minister for Business, Enterprise, Technology and Science**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF-EH-3427-12

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol
Cymru
CAERDYDD
CF99 1NA

31 Hydref 2012

Annwyl Nick

**CYNIGION CYLLIDEB DDRAFFT YR ADRAN BUSNES, MENTER, TECHNOLEG A GWYDDONIAETH 2013-14**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref 2012 a gyrhaeddodd fy swyddfa ar 23 Hydref. Ar 11 Hydref, cafodd y Pwyllgor gyfarfod ar y broses o graffu ar y gyllideb ac yn awr, rwy'n darparu rhagor o wybodaeth i gefnogi'r gyllideb ddrafft gan ymateb i'ch sylwadau chi fel a ganlyn:

**Tryloywder ac Atebolrwydd**

**Pwyntiau 1 a 2**

Fe geisiaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, fel y mae'n briodol, am y gwaith yr ydym yn ei wneud i gyflawni ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

**Pwynt 3**

Byddwn yn hapus i ddod gerbron y Pwyllgor yn ystod y 12 mis nesaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Yr hyn sy'n fforddiadwy**

**Pwynt 4**

Fel y trafodwyd yn y Pwyllgor, mae'r cynlluniau ariannol ar gyfer yr Ardaloedd Menter wrthi'n cael eu datblygu ac maent yn gyson â rhai'r sector. Mae nodyn yn Atodiad A sy'n egluro hyn yn fanylach.

Bydd pob Ardal Fenter yn cael budd o hyfforddiant a sgiliau; band eang cyflymder uchel; arloesed ac Ymchwil a Datblygu; cymorth ardrethi busnes; trefniadau cynllunio sy'n symlach a'r manteision marchnata a ddaw yn sgil ardal yn cael ei dynodi'n ardal fenter. Wrth gynnal y cynlluniau ar gyfer yr Ardaloedd Menter, byddwn yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru, yn enwedig phortffolio'r Adran Drafnidiaeth a'r Adran Addysg.

O ran cyllid, ar 23 Hydref, cyhoeddais gynllun gwerth £20 miliwn ar gyfer cymhellion Ardrethi Busnes ym mhob un o'r saith Ardal Fenter gan ganolbwyntio ar fusnesau newydd neu Fusnesau Bach a Chanolig sy'n ehangu ac yn cynyddu eu gweithlu parhaol. Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi £10 miliwn o gyllid cyfatebol i gyd-fynd â chyllid canlyniadol Llywodraeth y DU.

Rydym yn trafod gyda'r Gweinidog Cyllid ynghylch beth sydd ei angen i'w fuddsoddi mewn seilwaith a defnyddio dyraniadau cyfalaf ychwanegol o gronfeydd wrth gefn.

Lle mae'n bosibl, byddwn yn ceisio cynyddu ein buddsoddiad yn yr Ardaloedd Menter trwy ddefnyddio arian o'r sector preifat, Cronfeydd Strwythurol yr UE a manteisio ar gyfleoedd ariannu newydd.

**Pwynt 5**

Yn fuan, byddaf yn gwneud datganiad ar Ardaloedd Twf Lleol Powys a'r Dinas-ranbarthau. Cyfeiriwch at fy sylwadau uchod ar Ardrethi Busnes.

O ran Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru, mae'r prosiect £425 miliwn yn cael ei gefnogi gan £205 miliwn o arian o'r sector cyhoeddus sy'n cynnwys £58.6 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru (daw £30 miliwn ohono o'r cyllid cyfalaf wrth gefn), £56.9 miliwn gan BDUK ac £89.5 miliwn o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd y cyfnod o 2012 tan 2015.

Disgrifir y canlyniadau ar gyfer Band Eang y Genhedlaeth Nesaf ar gyfer Cymru yn y papur tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. O ran canlyniadau penodol, bydd y prosiect yn creu 50 o swyddi medrus newydd, 100 o brentisiaethau a phrofiad gwaith i 900 o bobl ifanc yng Nghymru, ac yn diogelu dros 320 o swyddi presennol ar draws ei fusnes. Mae BT, partner y prosiect, hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru trwy ein Gwasanaeth

Datblygu Cyflenwyr er mwyn creu cyfloed i Gwmnïau Bach a Chanolig Cymru ymuno â chadwyni cyflenwi. Hefyd, mewn amser, rydym yn rhagweld y bydd modd creu hyd at 2,500 o swyddi llawn-amser eraill ledled Cymru.

**Pwynt 6**

Ar gyfer y pwynt hwn, hoffwn i chi droi at yr ateb a roddais i'r Pwyllgor ynghylch y gyllideb ar gyfer paratoi adroddiad dichonoldeb ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn 2026. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch y gyllideb nes y byddwn wedi ystyried costau a buddiannau Gemau 2014 yn Glasgow. Yn Atodiad B, mae rhestr o'r prosiectau sydd wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol ar gyfer 2013-14. Mae nifer sylweddol o ddigwyddiadau ychwanegol wrthi'n cael eu hystyried hefyd.

**Blaenoriaethau**

**Pwyntiau 7 ac 8**

Fel y trafodwyd yn y Pwyllgor, mae cyllideb benodol ar gyfer datblygiadau sydd ar y gweill. Yn hynny o beth, wrth fanteisio ar gyfleoedd ac amodau economaidd er mwyn cynnal twf a swyddi, mae gennyf rywfaint o hyblygrwydd, er enghraifft, i gynnig ateb penodol i ddenu buddsoddiad i Ardal Fenter. Bydd unrhyw adleoli adnoddau yn cael ei wneud fel rhan o'r broses o fonitro cyllidebau BETS ac ni fyddai'n briodol i ni gyhoeddi'r rhesymau dros benderfyniad gweithredol sy'n mynd yn ei flaen.

**Gwerth am arian**

**Pwynt 9**

Yn Atodiad A, rwyf wedi paratoi nodyn ar ddyfodol cyfeiriad strategol y naw prif sector a'u perthynas â'r Ardaloedd Menter, Ymchwil a Datblygu a mewnfuddsoddiad sy'n cynnwys dolen i'r strategaethau cyffredinol. Mae'r cynlluniau ariannol ar gyfer pob sector yn cael eu hystyried bob blwyddyn yn unol â blaenoriaethau a chyfleoedd ar draws yr Adran. Ni yw'n fwriad gennym gyhoeddi cynlluniau tair blynedd llawn ar gyfer pob sector gan fod angen i ni fod yn hyblyg ar draws y sectorau er mwyn sicrhau y gallwn gynnal camau ymyrryd yn gyflym i gefnogi gymaint o swyddi yng Nghymru ag sy'n bosibl.

Fel y gofynnwyd yn benodol yn y Pwyllgor, rwyf wedi atodi dadansoddiad manwl o'r gweithgaredd a ariennir gan y llinell wariant yn y gyllideb ar Gymorth i Fuddsoddiad Strategol, sef Atodiad C.

**Pwynt 10**

Mae angen ystyried cyfraniad fy Adran tuag at dwf economaidd mewn cyd-destun ehangach ar yr un pryd â'r amrywiaeth o ymrwymiadau a ddisgrifir yn y

Rhaglen Lywodraethu a fydd yn helpu'r economi i wella ac i dyfu yng Nghymru.

Mae'r Rhaglen Lywodraethau'n nodi amrywiaeth o ddangosyddion sydd, o'u hystyried yn eu cyfanrwydd, yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar yr hyn y mae'n ei gyflawni, a'i asesu hefyd. Mae Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys yr holl ddata sydd ar gael ar y dangosyddion, gan gynnwys gwybodaeth llinell sylfaen a dadansoddiad, ac nid oes yna unrhyw gynlluniau i gyhoeddi dadansoddiadau ychwanegol ar gyfer fy Adran.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am eu sylwadau cadarnhaol ar y modd yr ydym yn cyflawni blaenoriaethu'r gyllideb yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Rwy'n falch o gael y cyfle i drafod y gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud wrth gyflawni ein prif flaenoriaethau ar gyfer swyddi a thwf.

**Atodiad A**

**Cyfeiriad Strategol y Sectorau**

Mae'r cyfeiriad strategol y bydd y naw sector allweddol yn mynd iddo yn y dyfodol yn deillio o'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gynnal twf a swyddi cynaliadwy ar gyfer economi Cymru. Mae llwyddiant busnesau yn y naw sector allweddol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod Cymru'n ffynnu yn y dyfodol.

Mae gan bob sector thema benodol ac mae strategaeth wedi cael ei datblygu ar gyfer pob un, ar y cyd â phanel o arbenigwyr a phartneriaid busnes er mwyn helpu cwmnïau o ansawdd sy'n perfformio'n dda iawn i greu swyddi a chyfoeth a Chymru gynaliadwy.

Mae bob panel wedi cyhoeddi crynodeb weithredol o'i flaenoriaethau strategol. Gallwch eu darllen yma:

www.busnes.cymru.gov.uk

**Ardaloedd Menter**

Mae Rhaglen yr Ardaloedd Menter a strategaethau'r Sector hefyd yn gyd-ddibynnol. Yn yr hirdymor, y nod strategol yw mynd i'r afael â phrif broblemau strategol a strwythurol economi Cymru, lle gellir cael yr effaith fwyaf. Bydd gweithgareddau busnesau a buddsoddiad o fewn y saith Ardal Fenter yn denu buddsoddiad pellach. Wrth ddatblygu'r seilweithiau a'r cymhellion, y nod yw cyflawni'r blaenoriaethau arbennig fesul sector fel bod swyddi a thwf yn parhau.

Hoffem weld y canlynol yn digwydd yn yr Ardaloedd Menter:

- Yr economi leol yn tyfu a swyddi newydd yn cael eu creu;
- Yr ardal yn gweithredu fel catalydd ac yn ysgogi twf mewn mannau eraill yng Nghymru;
- Gwneud yr Ardaloedd Menter yn fwy deniadol i fuddsoddwyr;
- Gwneud economi Cymru yn fwy cystadleuol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan

www.ardaloeddmenter.cymru.gov.uk

**Mewnfuddoddi**

Yn bennaf, mae'r strategaeth fewnfuddsoddi yn canolbwyntio ar y prif sectorau er rydym yn annog prosiectau o'r tu allan i'r sectorau pwysig hyn hefyd.

Rydym wedi cryfhau'r elfennau masnach a mewnfuddsoddi a'u hintegreiddio'n llwyr o fewn gwaith y Timau'r Sector er mwyn sicrhau ein bod yn eu taclo yn llwyddiannus yn y naw sector.

Mae gan y tîm mewnfuddsoddi rôl bwysig i'w chwarae yn cynnal teithiau masnach ac arddangosfeydd o fewn y ffocws strategol sy'n cael ei gynnal gan y swyddogaeth o fewn mewnfuddsoddi.

Mae'r tîm mewnfuddsoddi a phob un o dimau'r sector wedi sefydlu cysylltiadau cryf â'u timau cyfatebol yn y DU. Mae atgyfnerthu a datblygu'r berthynas hon ar lefel y Sector yn elfen bwysig o'r strategaeth.

Yn nhermau masnach, y nod strategol yw allforio mwy o nwyddau a chreu mwy o gwmnïau i wneud hynny. Mae pedair prif elfen i'r strategaeth:

- Codi ymwybyddiaeth;
- Gwella gwybodaeth a sgiliau;
- Creu cyfleoedd;
- Cwrdd â'r cwsmer.

Mae gan Lywodraeth Cymru 11 o swyddfeydd tramor - Brwsel, Efrog Newydd, Washington, Dubai, Tokyo, Beijing, Shanghai, Chongqing, Bangalore, Mumbai a Delhi. Yn ddiweddar, ychwanegwyd Llundain at y rhestr hon a bydd y swyddfa hon yn canolbwyntio ar fewnfuddsoddi a masnach ryngwladol ac yn ychwanegu at ymrwymiad Prif Weinidog Cymru i gymryd camau pellach i werthu Cymru i'r byd a rhoi hwb i economi Cymru.

**Ymchwil a Datblygu**

Mae gweithgareddau cynllunio a gweithredu'r swyddogaeth ymchwil a datblygu wedi'u hintegreiddio'n llawn o fewn y Timau Sector. Mae gan y Timau Sector arbenigwyr arloesi ledled Cymru sydd ar gael i roi cyngor arbenigol a chynnig help gyda chyllid.

Gellir gweld y dull integredig hwn yn y prosiectau adeiladu capasiti sy'n galluogi'r timau o fewn y sector i ehangu'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig a helpu cwmnïau o fewn eu sectorau i ehangu. Mae enghreifftiau'n cynnwys prosiect SPECIFIC Tata a Phrifysgol Abertawe a Rhwydwaith Cyfnewid Creadigol Prifysgol Morgannwg sy'n brosiect ar gyfer sector y diwydiannau creadigol.

Mae arbenigwyr arloesi a'r Timau Sector yn cydweithio i ddenu ac i gadw mewnfuddsoddwyr pwysig fel y digwyddodd gyda Panasonic yn ddiweddar lle llwyddwyd i berswadio'r cwmni i fuddsoddi mewn sefydlu cyfleuster ymchwil a datblygu newydd yng Nghymru ar gyfer celloedd tanwydd.

Mae'r gwaith i ddatblygu'r Strategaeth Arloesi ymhellach yn cael ei wneud ar y cyd â'r Panelau Sector ac maent yn ceisio nodi sectorau y mae angen gwneud mwy o waith ynddynt ac adeiladu mwy o gapasiti hefyd.

**Atodiad B**

**Prosiectau Digwyddiadau Mawr**

Y prosiectau yr ydym wedi cymeradwyo cyllid ar eu cyfer yn 2013-14

Beyond the Border Storytelling Festival
British Seniors Open 2014
Classic FM Live 2013
Dylan Thomas 100
Extreme Sailing Series 2013
Focus Wales
Gemau Cymru
Glass Butter Beach
Gregynog Festival
International Cricket Council
Champions Trophy
Iris Prize
Ironman Triathlon
International Sports Promotion Society
Handa Celtic Manor Wales Open
Machynlleth Comedy Festival
Merthyr Rock Festival
North Wales Choral Festival
Pembrokeshire Fish Week
Cwpan Rygbi Cynghrair y Byd 2013
Cwpan Rygbi'r Byd 2015
Seniors Wales Open 2012 (Porthcawl
GC)
Slateman & Sandman Triathlons
Grand Prix Speedway
Gwyl Swn
Wakestock
Wales Rally GB
WOMEX 2013
World Stage Design 2013

**Atodiad C**

**Y Sector Twristiaeth**

**Llinell Wariant yn y Gyllideb 6255 ar gyfer Cymorth Strategol a Chymorth i'r Diwydiant**

Mae'r gyllideb ar gyfer Cymorth Strategol a Chymorth i'r Diwydiant yn ariannu'r gwaith o ddatblygu profiad yr ymwelydd o fewn y Sector Twristiaeth. Er mwyn alinio'r gweithgareddau yn y sector yn gliriach, bydd y llinell wariant yn y gyllideb hon yn cael ei galw'n Twristiaeth - Cymorth Strategol a Chymorth i'r Diwydiant.

| Cam gweithredu | Categori gwariant | Cyllideb Atodol 2012/13 £'000 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Sectorau | Refeniw | 4,136 | 3,925 | 3,925 |
| | Cyfalaf | 2,595 | 2,313 | 2,313 |
| | **CYFANSWM** | **6,731** | **6,238** | **6,238** |

**Cyllideb Refeniw**

Mae'r gyllideb refeniw yn helpu i ddatblygu profiad yr ymwelydd trwy gydweithio â'r diwydiant twristiaeth a rhanddeiliaid pwysig i gynnig arweiniad strategol. Mae'n cynnwys ariannu sefydliadau'r Partneriaethau Twristiaeth ac ymgysylltu â diwydiant trwy wefan Croeso Cymru. Hefyd, mae'n darparu arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Ewropeaidd sy'n cynnal twristiaeth a thwristiaeth Gynaliadwy.

**Cyllid Cyfalaf**

Mae'r Cynllun Cefnogi Buddsoddi Twristiaeth yn rhoi help i fusnesau bach a chanolig i wneud gwelliannau cyfalaf. Mae'r cynllun yn mynd rhagddo a chafodd ei ymestyn er mwyn helpu prosiectau seilwaith trwy brosiectau amwynderau cyrchfan sy'n cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol. Y flaenoriaeth yw twf a sbarduno'r sector preifat i fuddsoddi i gynyddu gwerth ein harian mewn swyddi.

Ers 1 Ebrill 2011, mae 93 o brosiectau twristiaeth yn y sector preifat wedi cael gwerth bron i £4 miliwn mewn grantiau gan TISS sydd wedi arian at fuddsoddiad o tua £14 miliwn. Yn sgil hyn, cafodd 345 o swyddi eu creu a/neu eu diogelu.